Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
David Jones OBE, Dirprwy Raglaw
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
a Philip Blaker,
Prif Swyddog Gweithredol, Cymwysterau Cymru

30 Medi 2020

Annwyl Philip a David

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 3 Gorffennaf rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch ystyriaethau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021.

Rwy'n ddiolchgar am yr holl waith rydych wedi'i wneud ers hynny, gan weithio gyda CBAC, i roi addasiadau ar waith ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yr haf nesaf, gan ystyried y tarfu a fu ar addysgu a dysgu, yn ogystal â gofynion cadw pellter cymdeithasol. Roeddwn yn arbennig o falch o weld y bu'n bosibl cyflwyno mwy o hyblygrwydd ar gyfer pynciau TGAU yn yr addasiadau a gyhoeddwyd gan CBAC yn ystod yr haf.

Fel y trafodwyd gennym ym mis Mehefin, er ein bod yn rhannu'r un farn mai'r peth gorau i ddysgwyr yw sefyll arholiadau yn ystod haf 2021, gofynnais hefyd ichi baratoi trefniadau wrth gefn posibl rhag ofn y gwelwn darfu pellach – gan elwa ar y gwersi a'r profiad a gafwyd wrth weithredu'r trefniadau ar gyfer haf 2020.

Fel y gwyddoch, gyda'r tarfu sy'n parhau yn sgil COVID-19, yn arbennig y cyfyngiadau symud lleol diweddar a'r hunanynysu yn dilyn achosion positif mewn ysgolion a cholegau, mae pryder cynyddol ymysg dysgwyr, eu teuluoedd ac ymarferwyr ynghylch y trefniadau ar gyfer arholiadau'r haf hwn. Yn sgil hynny hoffwn ofyn ichi am gyngor pellach ar yr opsiynau gorau rydych bellach yn ystyried eu bod ar gael i ddysgwyr sy'n disgwyl sefyll eu harholiadau yr haf nesaf.

Gofynnaf ichi ystyried fy mlaenoriaeth bennaf ar gyfer unrhyw ddull gweithredu, sef hyrwyddo a sicrhau dysgu a lles dysgwyr, fel bod gan ddysgwyr yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i symud ymlaen i addysg bellach, addysg uwch neu gyflogaeth. Hoffwn sicrhau hefyd bod unrhyw ddull gweithredu yn bodloni'r amcanion canlynol:

- Cyflwyno trefniadau teg a chyfartal sy'n sicrhau cysondeb ledled Cymru ac yn trin dysgwyr yn gyfartal, gan sicrhau cydraddoldeb i bob un - yn enwedig y rheini o dan yr anfantais fwyaf;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Sicrhau’r risg isaf bosibl i ddysgwyr o ran eu hopsiynau yn y dyfodol;
- Bod modd ei gyflawni o fewn yr amserlenni sydd ar gael, o ran y camau gweithredu y mae’n rhaid ichi a CBAC eu dilyn, yn ogystal â chyfrifoldebau ehangach y sector addysg i gyflwyno dull gweithredu hyfyw;
- Darparu dull gweithredu credadwy sy’n magu hyder yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu’r cyngor hwn imi cyn diwedd mis Hydref, fel y gallaf ei ystyried ochr yn ochr â chanlyniadau interim yr Adolygiad Annibynnol. Fy mwriad wedyn yw gwneud cyhoeddiad ar y ffordd ymlaen ym mis Tachwedd. Bydd hyn yn rhoi eglurder i ddysgwyr a’r sector addysg ehangach, fel y gall paratoadau trwyadl gael eu gwneud ac y gellir parhau â’n blaenoriaeth o ganolbwyntio ar ddysgu.

Rwyf hefyd yn cadw mewn cof y bydd angen gwneud trefniadau ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol. Er fy mod yn cydnabod bod hyn yn rhannol ddibynnol ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar draws gweddill y DU, mae'n bwysig i mi ein bod ni yng Nghymru, lle bynnag y bo'n bosibl, yn ceisio trin dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol a chyffredinol yn gyfartal. Felly, byddwn i hefyd yn falch o glywed y newyddion diweddaraf ar y gwaith hwn ac awgrymaf ein bod yn ei drafod fel rhan o gyfarfod i ystyried eich cyngor am gymwysterau cyffredinol.

Rwy’n ddiolchgar am eich cyngor a’ch cymorth parhaus, yn ogystal â gwaith caled eich staff yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education